# DYFODOL NI
# OUR FUTURE

Dogfen sydd yn esbonio pwrpas y Partneriaeth Dyfodol Ni o fewn Rhaglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

# CYNNWYS

1 BRIFF Y PROSIECT A DATGANIAD CENHADAETH

2 POBL IFANC & DYFODOL NI

3 LLINELL AMSER Y PROSIECT

4 ADDEWID PARTNERIAETH

# 1 Y PROSIECT & EIN CENHADAETH

Mae Dyfodol Ni yn bartneriaeth a ariennir gan sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a gweithwyr proffesiynol y gellir ymddiried ynddyn nhw ar draws Sir Ceredigion. Ariennir gan Raglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Dyfodol Ni sydd wedi dod at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi'u cydgynhyrchu, gan roi pobl ifanc ar y blaen er mwyn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyriadau i bobl ifanc yng Ngheredigion. Bydd y rhaglen yn rhedeg am chwe blynedd, gyda chyfnod datblygu am y deuddeg mis cyntaf i ddylunio a chreu cynllun darparu gwasanaeth ar gyfer y pum mlynedd sy'n weddill o'r rhaglen.

Mae ein hymchwil yn dangos bod pobl ifanc yn ein hardal yn pryderu am y diffyg cymorth iechyd meddwl a llesiant, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, unigedd gwledig a thlodi. Nodwyd yn eang mai iechyd meddwl oedd yn cael yr effaith fwyaf ar feysydd eraill o'u bywydau.

Yr ethos sydd wrth galon Partneriaeth Ceredigion fydd gwrando ar lais ein pobl ifanc, darparu cyfleoedd iddynt fynegi eu hunain, llywio cyfeiriad y prosiect a chyd-gynhyrchu gweithgareddau'r dyfodol er mwyn gwella gwydnwch ac iechyd meddwl bobl ifanc ar draws Ceredigion gyfan. Felly, drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc, bydd partneriaeth Dyfodol Ni yn cydweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl ifanc Ceredigion yn eu hwynebu'n uniongyrchol er mwyn dod â'n gwasanaethau i'w llawn botensial.

# 2 POBL IFANC & DYFODOL NI

## ARWEINIR GAN IEUENCTID

Rydym yn cael ein harwain gan ieuenctid. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth i ddiwallu anghenion, fel y'u diffinnir gan bobl ifanc, mewn dull sy'n addas iddyn nhw. Fel gweithwyr ieuenctid a darparwyr gwasanaethau, ein rôl ni yw ysbrydoli pobl ifanc i fod y gwneuthurwyr newid y maent yn eu haeddu a darparu mannau diogel iddyn nhw godi eu lleisiau. Nhw yw penderfynwyr y rhaglen ac mae ganddyn nhw y grym i ddod â'u syniadau i'r bartneriaeth.

## CYNULLEIDFA DARGED

Caiff y cyfnod datblygu ei gyflwyno dros flwyddyn, ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd y bobl ifanc yn pennu'r ystod oedran y bydd y prosiect yn gweithio gyda nhw, o ran sut wedd fydd ar y prosiect ac at bwy y mae wedi'i anelu. Roedden nhw am fod yn hyblyg a pheidio ag atal unrhyw oedran ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r sefydliadau partner sy'n ffurfio'r bartneriaeth, rhyngddynt, yn estyn allan ac yn cefnogi ystod oedran eang o 4-25 mlwydd oed ac amryw o gefndiroedd.

# 3 LLINELL AMSER

Cynhelir rhaglen Meddwl Ymlaen rhwng Medi 2022 a Mawrth 2028.
Mae'r amserlen fel isod:

**CYFNOD DATBLYGU**
MEDI 2022 - AWST 2023

**BLWYDDYN 1**
MEDI 2023 - AWST 2024

**BLWYDDYN 2**
MEDI 2024 - AWST 2025

**BLWYDDYN 3**
MEDI 2025 - AWST 2026

**BLWYDDYN 4**
MEDI 2026 - AWST 2027

**BLWYDDYN 5**
MEDI 2027 - MAWRTH 2028

# 4 ADDEWID PARTNERIAETH

Cafodd addewid Partneriaeth Dyfodol Ni ei chreu gan bobl ifanc er mwyn gosod cytundeb y sefydliadau partner i gynnal ffocws gweithgareddau'r bartneriaeth dan arweiniad ieuenctid. Rhaid i bob sefydliad partner arfaethedig lofnodi'r addewid isod. Mae sefydliadau'n cytuno i sicrhau'r canlynol:

## 1 DAN ARWEINIAD IEUENCTID

Mae lleisiau pobl ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw. Gallant ddefnyddio'r gwasanaeth a ffefrir ganddyn nhw i feithrin annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, gan annog ymgysylltiad a brwdfrydedd yn yr hyn a wnawn.

Mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl ifanc leol, fel y'u diffinnir ganddyn nhw, gan gynnig cymorth hygyrch lle bynnag y mae'n bosibl, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu hystyried eu bod mewn mwy o berygl, dan anfantais neu ag anghenion uwch.

# 2 CYNWYSOLDEB, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn eu hardal leol a gallant gael mynediad i'r cymorth y maen nhw'n penderfynu sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylent deimlo'n ynysig nac yn wahanol oherwydd dewis iaith, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, cenedligrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, materion iechyd meddwl, crefydd neu unrhyw nodwedd arall.

Dylai'r gwasanaethau ieuenctid lleol helpu i wella amgylchiadau bywyd pobl ifanc o bob cefndir fesul cynnig cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at gyfleoedd a manteisio arnyn nhw.

# 3 PARCH

Caiff anghenion a dymuniadau pobl ifanc lleol eu hystyried lawn cymaint ag unrhyw grŵp cymunedol arall. Dylent deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ieuenctid lleol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu cymunedau a mwynhau cyfleoedd yn eu hardal heb boeni am farn neu stereoteipio negyddol.

## 4 ANSAWDD, DIOGELWCH A LLESIANT


Darperir gwasanaethau mynediad agored o ansawdd da gan staff â hyfforddiant diogelu sydd â chysylltiadau â chymorth pellach os oes angen. Mae ein gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, emosiynol a chorfforol, yn gwella eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'n sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, dysgu anffurfiol a gweithgareddau o'u dewis.

## 5 RHOI GRYM

Mae gwasanaethau'n rhoi grym i bobl ifanc i symud ymlaen ac ymgysylltu â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Gwrandewir ar bobl ifanc a gallant wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau, a deall sut i ymgysylltu â gwneud dewisiadau.

## 6 POSITIFRWYDD

Canolbwyntia gwasanaethau ar ddod â'r gorau allan o bob unigolyn, gan eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u priodoleddau, yn hytrach na cheisio 'trwsio problem'.



“

**Rydym ni, fel pobl ifanc, yn ffocws y sefydliad, yn gwneud penderfyniadau, yn arwain prosiectau ac yn cael ein cymryd o ddifrif, ein gwerthfawrogi a’n parchu. Drwy dderbyn cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae ein nodau a’n syniadau’n fwy agos i gyrraedd ac rydym yn cael y cyfleoedd a’r gydnabyddiaeth yr ydym yn eu haeddu.**

Team 43, Aberteifi, Ceredigion




# YMUNWCH GYDA'R PARTNERIAETH

Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd, felly os ydych chi'n sefydliad sydd â diddordeb mewn ymuno â Phartneriaeth Dyfodol Ni, cysylltwch gyda Becca Head ar DyfodolNi@area43.co.uk